# Ymgynghoriad ar ein Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2017-18

# 1 Cynnwys

Atodiad 1 Aelodaeth Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau ........................................ 4
2 Cyflwyniad...........................................................................................3 3
4
3 Codiadau i'n taliadau cyfredol..........................................................................5. 6
3.1 Prif Negeseuon.................................................................................... 6
3.2 Tynnu Dŵr ……………………………………………………………………6
3.2.1 Gofynion Cyfalaf newydd .................................................................... 6
3.2.2 Awdurdodiadau Newydd ..................................................................... 6
3.3 Pob Cynllun Statudol Arall…………………………………………………..7
4 Newidiadau ac ychwanegiadau i Gynlluniau Codi Tâl Statudol...........................7. 8
4.1 Newidiadau i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol…………………………..8
4.1.1 Ffermio Dwys (Moch a Dofednod) ......................................................... 8
4.1.2 Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) – Lluosyddion Perfformiad Gwael .................................. 10
4.2 Cydymffurfiad Cronfeydd Dŵr.............................................................12
5 Taliadau dewisol.................................................................................13............. 14
5.1 Gwasanaeth Cynghori Dewisol…………………………………………….14
5.1.1 Cwmpas y gwasanaeth...................................................................... 14
5.1.2 Cyfyngiadau'r gwasanaeth ................................................................. 15
5.1.3 Cost y gwasanaeth ............................................................................ 15
5.1.4 Gweithrediad ..................................................................................... 16
6 Materion Eraill i'w Nodi...........................................................16 ......................... 17
6.1 Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Dewisol……………………………………17
6.2 Cysylltiadau â Chynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol……………………………………………………………………...18
6.3 Taliadau ynni dŵr……………………………………………………………..18
6.4 Taliadau Gweithgareddau Perygl Llifogydd…………………………………..19
6.5 Cyfarwyddeb Safleoedd Hylosgi Canolig……………………………………..19
7 Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn...........................................................19 ..................................... 20
7.1 Sut i Ymateb…………………………………………………………………..20
7.2 Diogelu Data…………………………………………………………………..20
7.3 Camau Nesaf…………………………………………………………………..21
Atodiad 1 ........................................................................................... 22

# 2 Cyflwyniad

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol a’n hamgylchedd yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella’n gynaliadwy a’u defnyddio mewn ffordd sy’n dda i bobl, yn dda i’r amgylchedd ac yn dda i’r economi.

Mae hyn yn golygu bod ein cylch gwaith yn eang ac mae’n cynnwys darparu amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddio. Yn unol â gofynion y Llywodraeth, mae'n rhaid i ni adennill costau ein gwasanaethau rheoleiddio oddi wrth y rhai sy’n cael eu rheoleiddio gennym, yn hytrach na chael ein hariannu trwy drethu cyffredinol. Mae’r ffioedd a’r taliadau a godir ar gyfer costau rheoleiddio yn cyfrif am tua 20% o gyfanswm cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru o £180m[1].

Mae ein Cynlluniau Ffioedd a Thaliadau’n cael eu hadolygu’n flynyddol i sicrhau ein bod yn adennill ein costau a bod gofynion technegol yn cael eu cwrdd. Wrth osod ffioedd a thaliadau, rydym yn dilyn y gofynion a nodir yn ‘*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ‘[2] gan sicrhau mai costau cymwys yn unig sy’n cael eu cynnwys o fewn cyfrifiadau. Gallwch lawr lwytho copi o’n cynllun codi tâl presennol ni o’n gwefan[3].

Ar yr un pryd, rydym hefyd yn adolygu ein gwaith, gan sicrhau bod ein prosesau yn effeithiol ac effeithlon, er mwyn cadw taliadau mor isel â phosibl. Rydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar ac felly rydym yn cynnig gwneud rhai newidiadau i daliadau tynnu dŵr, taliadau trwyddedu amgylcheddol a chyflwyno rhai taliadau newydd.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ein cynigion gyda Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, sy’n cynnwys amryw gyrff masnachol a chynrychioladol ein rhanddeiliaid. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu strategaeth a’n cynlluniau codi tâl ar gyfer y dyfodol.  Hoffem ddiolch i aelodau’r grŵp am eu hymroddiad i gynrychioli eu haelodau trwy weithio â ni yn y modd hwn, yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn adolygu aelodaeth y grŵp hwn yn flynyddol i sicrhau bod gennym aelodau sy’n berthnasol i’r newidiadau a gynigir. Atodir rhestr o’r aelodau cyfredol yn Atodiad 1.

Yn ogystal â dilyn ein hegwyddorion rheoleiddio[4], y Cod Rheoleiddwyr[5] a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, rydym wedi ymrwymo i’r egwyddorion canlynol:

- tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- osgoi traws gymorthdalu rhwng trefniadau

---

[1] Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/our-reports-and-priorities/our-corporate-plan/corporate-plan-introduction/?lang=cy

[2] http://gov.wales/funding/managing-welsh-public-money

[3] www.naturalresources.wales/how-we-regulate-you/our-charges

[4] www.naturalresources.wales/how-we-regulate-you/regulatory-principles

[5] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300126/14-705-regulators-code.pdf

- darparu gorwelion cynllunio tymor hirach lle bynnag y bo'n bosibl
- osgoi cylchoedd o dorri ac yna godi taliadau trwy reoli ein gwargedion a'n diffygion yn weithredol
- cadw taliadau mor isel â phosibl trwy hybu gwell effeithlonrwydd yn barhaus

Yn ein cynlluniau taliadau, cyfeiriwn at ddau grŵp o daliadau: taliadau trwyddedu a thaliadau cynhaliaeth. Ceir esboniad o'r ddau grŵp o daliadau hyn yn ein dogfen ganllaw ar y cynllun. Fodd bynnag, i fod yn glir yn y ddogfen ymgynghori, cyfeirir at ffioedd cynhaliaeth fel y Tâl Monitro Cydymffurfiaeth Blynyddol.  Mae hyn yn cwmpasu cost y gwaith a wneir gennym i fonitro ac adrodd cydymffurfiaeth yn y mannau yr ydym yn eu rheoleiddio. Mae ein gwaith o ran monitro cydymffurfiaeth yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ymweliadau safle, adolygiad pen desg, cynnal y gofrestr gyhoeddus a darparu cyngor ac arweiniad technegol.

Byddwn yn cadw golwg ar unrhyw effaith fydd ar ein taliadau yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol, yn enwedig mewn meysydd lle mae deddfwriaeth Ewropeaidd wedi pennu neu wedi dylanwadu ar ein dyletswyddau rheoleiddio.

Rydym yn ceisio eich sylwadau a'ch barn ar y cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau ar gyfer 2017-18.  **Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 13 Ionawr 2017**. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau wrth lunio ein cynlluniau terfynol.  Bydd y cynlluniau statudol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, gan amcanu cyflwyno'r cynllun newydd o 1 Ebrill 2017.

# 3 Codiadau i'n taliadau cyfredol

Rydym yn parhau i adolygu'r modd y byddwn yn cyflenwi gwasanaethau er mwyn sicrhau camau effeithlonrwydd pellach yn ein systemau a'n prosesau. Rydym yn ymestyn ein hagwedd at reoleiddio sy'n seiliedig ar le, ac mae hynny'n ein helpu i sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen ar amgylchedd Cymru a thwf gwyrdd, gan ffurfio cysylltiadau cryfach gyda phobl a busnes. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni'r targedau arbed a nodwyd yn yr achos busnes dros ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, a hefyd yn ein galluogi i gadw ein taliadau mor isel â phosibl.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein modelu cost i wneud ein sylfaen gostau tymor hir yn fwy sicr ac i gynyddu tryloywder cynlluniau unigol i'n rhanddeiliaid.

## 3.1 Prif Negeseuon

Ar sail y cynigion yn y ddogfen hon, bydd y rhan fwyaf o'r taliadau a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2017-18 yn aros ar lefelau cyfredol 2016-17. Byddwn yn ymdrech i ddarparu arbediadau effeithlonrwydd digonol i amsugno chwyddiant a phwysau pellach ar ein costau ar gyfer 2017-18. Mae'r Taliadau Tynnu Dŵr yn eithriad i hyn.

## 3.2 Tynnu Dŵr

Mae llawer o bwysau gwahanol ar gyllid tynnu dŵr dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys:

### 3.2.1 Gofynion Cyfalaf newydd

Mae Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr Adran 20 yn bodoli i gyllido gwaith cyfalaf gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gronfeydd dŵr fel bod asedau yn cael eu cynnal ar lefelau priodol. Mae angen gwaith uwchraddio cyfalafol ar Lyn Brenig a Llyn Celyn yn dilyn archwiliadau diogelwch ac amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd hyn yn costio oddeutu £4m dros y 2-3 mlynedd nesaf. I gyllido'r gwaith yma, rydym yn cynnig ein bod yn cynyddu'r Tâl Uned Safonol (TUS) 6% yn 2017-18. Bydd y TUS yn parhau ar y lefel hwn yn 2018-19 ac yna bydd yn cael ei leihau i'r lefelau cyfredol yn 2019-20, yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl feysydd eraill perthnasol yn parhau'n sefydlog. Rydym yn gweithio gyda DCWW ar hyn o bryd i edrych ar ffyrdd amgen o ledaenu cost gwaith cyfalaf dros gyfnod hirach, ac felly'n lleihau'r effaith o gylchedau o doriadau a chynnydd, a fydd yn rhoi sicrwydd hir-dymor i'r rhai sy'n gwneud taliadau.

### 3.2.2 Awdurdodiadau Newydd

Mae potensial ar gyfer ceisiadau am iawndal yn y dyfodol os oes rhaid cwtogi ar eithriadau tynnu dŵr cyfredol pan fyddant yn dod o dan reolaeth trwydded. Ni fydd hyn yn effeithio ar Dâl Uned Gwella Amgylcheddol (EIUC) 2017-18, ond mae'n bosibl y bydd yn y blynyddoedd wedyn.

**Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ar lefel arfaethedig y Tâl Uned Safonol (TUS)?**

### 3.3 Pob Cynllun Statudol Arall

Bydd holl lefelau taliadau eraill yn aros ar lefelau 2016-17, heblaw am y newidiadau technegol a'r taliadau newydd amrywiol a amlinellir yn y paragraffau canlynol o fewn y ddogfen ymgynghorol hon.

# 4 Newidiadau ac ychwanegiadau i Gynlluniau Codi Tâl Statudol

Mae'r adran hon yn ymdrin â newidiadau ac ychwanegiadau i gynlluniau codi tâl statudol lle bwriadwn gyflwyno taliadau o 1 Ebrill 2017. Wrth adolygu ein prosesau rheoleiddio, gwelwyd y mannau lle nad oeddem wedi adennill costau yn llawn. Mae gweithgareddau pellach yn cael eu hadolygu ac o bosibl yn cael eu hystyried ar gyfer cynlluniau codi tâl i'r dyfodol.

## 4.1 Newidiadau i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i'r Cynllun Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer 2017-18.

### 4.1.1 Ffermio Dwys (Moch a Dofednod)

Mae'r dull cyfredol o godi tâl am Ffermio Dwys yn wahanol i osodiadau eraill, gan adlewyrchu risg amgylcheddol is y gweithgaredd. Fodd bynnag, mae ein ffioedd cyfredol yn is na chost y gwaith trwyddedu a chydymffurfio sy'n ofynnol.

Mae ein taliadau cyfredol yn syrthio i ddwy adran: trwyddedu (ceisiadau ac amrywiadau) a'r taliadau monitro cydymffurfiaeth blynyddol. Mae ein gweithgaredd trwyddedu ar hyn o bryd yn costio tua £230,000 yn fwy i ni yn flynyddol na'r hyn y gallwn ei adennill o ffioedd y trwyddedau. Mae ein costau cydymffurfio blynyddol ar y llaw arall yn is na'r ffioedd monitro cydymffurfio a dderbyniwn.  Mae hyn yn golygu bod gan y maes hwn ddiffyg net ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Ar yr un pryd, mae'r rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol nawr yn mynnu bod rheoleiddwyr yn cynnal archwiliadau sy'n gysylltiedig â maint o risg a achosir gan y gweithgaredd ac yn adolygu holl drwyddedau perthnasol o fewn pedair blynedd i gyhoeddiad y Dogfennau Cyfeirio Technegau Gorau sydd ar Gael (BRef). Mae'r BRef ar gyfer y sector Ffermio Dwys bron wedi'u cwblhau ac rydym yn disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2017. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gasglu gwybodaeth ac adolygu pob trwydded Ffermio Dwys yn erbyn y safonau yn y BRef erbyn 2021.  Ariennir hyn gan ffioedd amrywiadau yn hytrach na'r tâl monitro cydymffurfio blynyddol.

Felly, rydym yn bwriadu newid y taliadau arfaethedig i adlewyrchu cost darparu'r gwasanaeth ac adlewyrchu cost rheoleiddio yn gywir. Rydym am godi cost ymgeisio am drwyddedau newydd yn y lle cyntaf ac am amrywiadau lle mae gweithredwyr am gynyddu nifer yr anifeiliaid ar safle.  Ar yr un pryd, byddwn yn lleihau'r gost o fonitro cydymffurfio blynyddol. Byddwn yn cadw'r ffi ar y gyfradd gyfredol i bob amrywiad arall.

Mae bron i holl weithrediadau ffermio dwys yng Nghymru yn ymwneud â dofednod gydag un gweithrediad magu moch dwys yn unig.  Pan fydd deiliaid trwyddedau yn cynyddu nifer yr anifeiliaid ar safle, mae'n rhaid i ni ail-asesu agweddau niwsans a chynefinoedd y drwydded. Nid yw'r ffi gyfredol yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sydd ei angen, felly rydym am godi ein taliadau am amrywiadau sy'n cynyddu nifer yr anifeiliaid neu adar a ganiateir.

Mae amrywiadau i gynyddu nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar ffermydd hefyd yn golygu bod yn rhaid ail-asesu agweddau materion niwsans a chynefinoedd. Mae'r gwaith ychwanegol hwn yn cymryd mwy na'r hyn sy'n cael ei gynnwys gan y ffi gyfredol, felly

rydym am godi'r ffi amrywiadau i £3,500 am gynnydd yn nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar safleoedd sy'n delio gyda naill ai foch neu ddofednod. Byddai cynyddu nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar safleoedd trwyddedig gyda mwy na 80,000 o adar yn costio £5,000. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ein gwasanaeth trwyddedu ar yr amser a gymerir i bennu cais am amrywiad.

Wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd am weithgareddau rheoleiddio cyfredol, ac wrth adolygu'r hyn fydd ei angen i'r dyfodol, amcangyfrifwn mai ychydig dros 8 awr y flwyddyn yn unig o weithgaredd cydymffurfio sydd ei angen i fonitro cydymffurfiaeth. Mae codi tâl o £1,040 bob blwyddyn yn galluogi CNC i adennill y gost o wneud hyn.

Rydym hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn trwyddedu Ffermio Dwys, gan leihau ein costau a sicrhau bod swyddogion trwyddedu yn treulio mwy o amser ar faterion perthnasol sy'n safle-benodol. Byddwn yn rhannu trwyddedau yn adran generig, mwy sector-penodol, ac yn adran safle-benodol.  Mae defnyddio dull o'r fath yn golygu ein bod yn gallu ymgynghori unwaith ar newidiadau cyffredinol mewn deddfwriaeth, safonau a dulliau. Gallwn wedyn wneud y diweddariadau hyn heb orfod adolygu pob trwydded safle-benodol yn unigol. Mae hyn yn arbed costau cyffredinol ac yn sicrhau bod trwyddedau bob amser yn gyfredol, a bod yr un gofynion ar waith ledled Cymru.

Mae'r cynigion hyn yn lleihau'r tâl monitro cydymffurfio blynyddol i lefel sy'n cyfateb gyda'n costau cydymffurfio parhaus. Mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod gweithrediadau ffermio cyfredol yn ennill £500 y flwyddyn ac maent yn niwtral o ran cost i ffermydd newydd erbyn blwyddyn 7 pan maent yn cael eu cydbwyso yn erbyn y newidiadau arfaethedig i ffioedd ymgeisio. Mae'r newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

| Math o Dâl | Tâl Cyfredol | Newid arfaethedig |
|---|---|---|
| **Ffi Ymgeisio** | £3,650 | £7,150 am: Mwy na 2,000 o foch >30kg<br>Mwy na 750 o hychod<br>Mwy na 40,000 o ddofednod |
| | | £10,000 80,000 o ddofednod neu fwy |
| **Tâl Monitro Cydymffurfio** | £1,540 | £1,040 |
| **Amrywiad** | £379 | £379 am amrywiadau heblaw am ehangiadau |
| | | £3,500 Cynyddu nifer y llefydd i anifeiliaid ar safle lle mae:<br>Mwy na 2,000 o foch >30kg<br>Mwy na 750 o hychod<br>Mwy na 40,000 o ddofednod |
| | | £5,000 Cynyddu nifer y llefydd i anifeiliaid ar safle lle mae 80,000 o ddofednod neu fwy |

**Cwestiwn 2. A oes yna unrhyw resymau pam y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar Weithrediadau Ffermio Dwys yng Nghymru?**

**Cwestiwn 3. A yw costau sefydlu cychwynnol uwch yn andwyol o ran datblygiad neu a yw cost oes y Gweithrediad Ffermio Dwys yn cael ei ystyried?**

### 4.1.2 Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) – Lluosyddion Perfformiad Gwael

Y llynedd, buom yn ymgynghori ar gynnig i ychwanegu haen ychwanegol o luosyddion ar gyfer cyfleusterau gweithrediadau gwastraff rheoliadau trwyddedu amgylcheddol sy'n perfformio'n wael. Ni weithredwyd y cynnig gan y barnwyd na fyddai'n adennill gwir gostau. Fodd bynnag, mae'r angen am newid yn dal i fodoli gan nad ydym ar hyn o bryd yn adennill ein holl gostau o fewn Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol. Un o'r prif resymau am hyn yw bod angen llawer mwy o reoleiddio i sicrhau cydymffurfiaeth a gwella perfformiad safleoedd sy'n perfformio'n wael.

Defnyddir y Cynllun Asesu Cydymffurfiaeth (CAC) i ddosbarthu mewn modd cyson, unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yn ôl ei ddifrifoldeb posibl.

- Categori 1 – diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi llygredd difrifol i'r amgylchedd. Rhoddir 60 pwynt CAC am achos o dorri amodau categori 1;
- Categori 2 - diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi llygredd sylweddol i'r amgylchedd. Rhoddir 31 pwynt CAC am achos o dorri amodau categori 2;
- Categori 3 - diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi ychydig bach o lygredd i'r amgylchedd. Rhoddir 4 pwynt CAC am achos o dorri amodau categori 3;
- Categori 4 - diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir na fyddai hynny'n cael unrhyw effaith amgylcheddol. Rhoddir 0.1 pwynt CAC am achos o dorri amodau categori 4.

Pennir band perfformiad cydymffurfio cyfleuster gan gyfanswm sgôr CAC a geir drwy weithgareddau asesu cydymffurfiaeth a gofnodir ar ffurflenni Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth drwy gydol blwyddyn galendr. Yn ogystal â hyn, rydym yn defnyddio adnodd asesu risg i werthuso risgiau gweithredol (Opra). Mae asesiad Opra yn darparu graddfa, neu broffil risg a ddefnyddir gennym fel rhan o'n proses asesu cydymffurfiaeth. Gweler mwy yn adran 6.2.

Bydd cyfanswm sgôr CAC cyfleuster (a'r band cysylltiedig) yn cynyddu yn unol â'r risg cymharol a achosir a nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir. Er enghraifft, ar gyfartaledd byddai gan safle Band D fel rheol 10 achos o ddiffyg cydymffurfio categori 3 ac ar gyfartaledd, byddai gan safle Band F fel rheol 6 achos o ddiffyg cydymffurfio categori 3. Mae'r achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio yn dynodi'r potensial ar gyfer methiant systemig neu fethiant rheoli o ran gweithrediadau'r cyfleuster.

Mae gan holl safleoedd D, E a F gynllun cydymffurfiaeth penodol i'r safle ar waith sy'n manylu ar y gweithredoedd cyfyngedig y cytunwyd arnynt gyda'r rheoleiddiwr, i sicrhau bod safleoedd yn gweithio tuag at wella eu perfformiad a'u cydymffurfiaeth gyda'u trwydded. Mae ein gwaith cynllunio ar gyfer defnyddio adnoddau asesu cydymffurfiaeth yn cael ei

lywio gan y monitro cydymffurfiaeth y bernir ei fod yn angenrheidiol ac mae'n gymesur â'r risg a achosir gan y cyfleuster.

Mae asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r gweithredoedd a nodwyd o fewn Cynlluniau Asesu Cydymffurfiaeth wedi dangos bod lefel yr ymdrech sydd ei angen i reoleiddio safle i wella perfformiad cydymffurfio lawer yn fwy na'r incwm a gesglir ar gyfer gwneud hynny.  Er enghraifft, gall safle sy'n perfformio'n wael fod angen 43 diwrnod o ymdrech rheoliadol[1] ac mae nifer sylweddol o'r safleoedd hyn yn aros yn y bandiau hyn am nifer o flynyddoedd.

Er mwyn sicrhau bod y ffioedd a godir mewn safleoedd o'r fath yn cael eu gosod ar sail adennill costau er mwyn talu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith monitro cydymffurfiaeth ychwanegol angenrheidiol, rydym yn cynnig newid i'r lluosyddion cyfredol, fel y dangosir yn y tabl isod.

Newid arfaethedig i'r lluosyddion band cydymffurfio

| **Band cydymffurfio** | **Lluosyddion Band Cydymffurfio** | |
|---|---|---|
| | Gwerth cyfredol ar gyfer safleoedd ym Mand D, E a F | Gwerth arfaethedig ar gyfer safleoedd ym Mand D, E a F |
| D | 125% | 200% |
| E | 150% | 300% |
| F | 300% | 500% |

Effaith gweithredu'r newidiadau arfaethedig hyn yn achos cyfleusterau sy'n perfformio'n wael ar hyn o bryd fyddai adennill ~£87k ychwanegol (mae'r tabl isod yn dangos yr effaith fesul band), sy'n cyfateb i 694 awr (yn seiliedig ar gyfradd tâl EPR yr awr o £125).

Effaith y newid arfaethedig ar dalwyr taliadau cyfredol (Seiliedig ar drefniadau bilio 2015)

| **Band cydymffurfio** | **Nifer y trwyddedau** | **Cyfanswm Taliadau Cyfredol** | **Cyfanswm Taliadau Newydd** |
|---|---|---|---|
| D | 14 | £35,085 | £56,718 |
| E | 14 | £39,498 | £80,022 |
| F | 4 | £36,933 | £61,555 |
| **Cyfanswm** | **32** | **£111,516** | **£198,295** |

Bwriadwn gyflwyno gwiriad o sgorau cydymffurfio holl safleoedd ym mand D, E a F ar ôl y 6 mis cyntaf i weld os yw eu cydymffurfiaeth wedi gwella ddigon i'w symud i fand uwch ac addasu eu ffioedd hanner ffordd drwy'r flwyddyn i adlewyrchu hyn.

**Cwestiwn 4. Beth yw eich barn ar ein cynnig i newid y trefniadau ar gyfer Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n perfformio ym Mand D, E a F?**

## 4.2 Cydymffurfiad Cronfeydd Dŵr

Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn ddeddfwriaeth diogelwch cyhoeddus sy'n bodoli er mwyn gwarchod diogelwch pobl, eiddo a seilwaith drwy leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr yn cael ei ryddhau'n afreolus o gronfeydd dŵr uwch mawr. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu hadeiladu, eu newid, eu harchwilio a'u dileu dan gyfarwyddyd peiriannydd cymwys.

Mae dyletswydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ymgymerwyr [6] cronfeydd dŵr uwch mawr yn dilyn ac yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth. Ers Ebrill 2016, mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi cyflwyno newidiadau sylweddol yng Nghymru, gan gynnwys lleihau capasiti trothwy cronfa ddŵr wedi'i rheoleiddio i 10,00 0 metr ciwbig, ynghyd â chyfrifoldebau rheoleiddio newydd eraill.

Rydym am gyflwyno system codi tâl haenog ar gyfer cofrestru a monitro cydymffurfiad. Bydd yna:

- Tâl Cofrestru a Dynodi Risg o £510
- Tâl Monitro Cydymffurfiad Blynyddol – yn seiliedig ar risg:
  - Cronfeydd dŵr risg uchel - £230
  - Cronfeydd dŵr uchel mawr nad ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel - £150

Gosodwyd y tâl arfaethedig i bob gweithgaredd i sicrhau bod modd adennill costau ar draws y system, gan adlewyrchu'r gwaith sy'n angenrheidiol yn seiliedig ar risg. Mae'r taliadau Monitro Cydymffurfiad Blynyddol yn cynnwys ein costau rheoleiddio parhaus ar ôl cofrestru a'r gwaith o ddynodi risg y gronfa ddŵr.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar ymgymerwyr cronfeydd dŵr i gofrestru eu cronfa ddŵr a bydd y cynigion hyn ond yn dod i rym i'r ymgymerwyr cronfeydd dŵr hynny sy'n cofrestru gyda ni ar 1 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny. Byddwn yn gweithio i gyfathrebu'r dyddiad y daw'r newidiadau arfaethedig hyn i rym, gan annog ymgymerwyr i fanteisio ar gyfnod cofrestru a dynodi am ddim a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017.

### Cyfrifoldebau ymgymerwyr lluosog

Os oes mwy nag un ymgymerwr â chyfrifoldebau dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, cynigiwn ein bod yn codi un tâl am y gronfa ddŵr. Er mwyn osgoi costau ychwanegol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi un anfoneb am daliad gan holl ymgymerwyr y gronfa ddŵr. Bydd gofyn wedyn i'r holl ymgymerwyr ddosrannu costau rhyngddynt ac ni fydd CNC yn awgrymu sut ddylid dosrannu'r costau hynny.

---

[6] Ymgymerwr yw'r term cyfreithiol ar gyfer perchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr fel y'i diffinir gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975

**Cwestiwn 5.** **Beth yw eich barn am y lefel o daliadau a gynigir ar gyfer cofrestru a dynodi risg?**

**Cwestiwn 6.** **Beth yw eich barn am dâl haenog, seiliedig ar risg ar gyfer monitro cydymffurfiad blynyddol a lefel y taliadau hyn?**

**Cwestiwn 7.** **Beth yw eich barn am yr ymagwedd sy'n gofyn i ymgymerwyr lluosog ddosrannu costau rhyngddynt?**

# 5 Taliadau dewisol

Mae taliadau yn yr adran hon wedi’u nodi dan Erthygl 10 Gorchymyn Sefydlu Corff Adnoddau Naturiol i Gymru ac yn amodol ar gytundebau unigol rhwng CNC a’r person sy’n derbyn y gwasanaeth, yn seiliedig ar gytundeb contractiol.

## 5.1 Gwasanaeth Cynghori Dewisol

Cyn derbyn cais am drwydded neu gydsyniad, caiff ymgeiswyr eu hannog i gysylltu â thîm CNC sy’n gyfrifol am y trefniadau perthnasol, a gofyn am drafodaeth cyn-ymgeisio. Mae trafodaethau cyn-ymgeisio yn gallu helpu i leihau’r risg a’r ansicrwydd a wyneba ymgeiswyr wrth ymgeisio am drwyddedau ar gyfer gweithgareddau wedi’u rheoleiddio. Maent hefyd â’r potensial i wella ansawdd y cais drwy sicrhau bod ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o ofynion rheoleiddio a pha wybodaeth sy’n ofynnol i gefnogi’r cais.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar ac effeithiol a’r manteision a ddaw o hyn i’n cwsmeriaid a’r amgylchedd. Fodd bynnag, bydd datblygwyr yn aml yn awyddus i ni gyfranogi ar lefel sydd tu hwnt i’n dyletswyddau statudol, neu unrhyw gyngor a ddarparwn fel rhan o’r ffi ymgeisio. Mewn achosion o’r fath, byddai’r cyngor y byddem yn ei ddarparu ar sail ddewisol ac yn atodol i’r cyngor y mae gofyn i ni ei ddarparu yn statudol.

Fodd bynnag, mae’n dod yn gynyddol anodd i ni gydbwyso’r her o ddarparu adnoddau i’r gwasanaeth dewisol hwn gyda’n gwaith statudol. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni anghenion ein cwsmeriaid a darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru, mae CNC am gynnig gwasanaeth cynghori cyn-ymgeisio dewisol i ymgeiswyr o fewn yr holl drefniadau y mae CNC yn gyfrifol am wneud penderfyniad ynddynt (a lle nad yw eisoes yn codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio), yn amodol ar dalu tâl priodol.

### 5.1.1 Cwmpas y gwasanaeth

Ystyrir mai cyngor cyn-ymgeisio yw’r cyngor a ddarperir i ymgeisydd cyn cyflwyno cais ffurfiol (neu unrhyw gais ffurfiol arall am ganiatâd lle nad oes trefniadau ymgeisio penodol), a gall gynnwys amgylchiadau lle na fydd yr ymgeisydd yn dewis bwrw ymlaen gyda’r cais ffurfiol.

Ystyrir bod y gwasanaeth cynghori cyn-ymgeisio dewisol y codir tâl amdano:

- tu allan i unrhyw ofyniad statudol i ddarparu’r cyngor am ddim;
- tu allan i unrhyw gytundeb trefniadau penodol gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu’r cyngor am ddim, a
- tu allan i unrhyw gyngor a ddarperir dan fecanwaith ariannu arall, gan gynnwys unrhyw ffi ymgeisio.

### 5.1.2 Cyfyngiadau'r gwasanaeth

Dim ond trefniadau sy'n cyhoeddi canllawiau cadarn sydd ar gael i bawb i gefnogi'r broses ymgeisio a fydd yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth cynghori dewisol y codir tâl amdano.

Bydd cwmpas y cyngor dewisol sy'n briodol i'w ddarparu yn drefniant penodol, ond fel rheoleiddiwr, ni allwn ddarparu unrhyw gyngor neu wasanaeth a allai amharu ar y modd gaiff y cais ei bennu. Felly, bydd y gwasanaeth hwn wedi'i gyfyngu i weithgareddau cynghori, ac ni fydd yn cynnwys paratoi adroddiadau i ymgeiswyr na chynnal asesiadau a ddylai fod yn rhan o'r cais.

Caiff y gwasanaeth ei gynnig yn unig ble fydd adnoddau ac arbenigedd ar gael gan CNC i ddarparu'r cyngor dewisol. Caiff y gwasanaeth ei gynnig yn ôl disgresiwn CNC ac ni fydd rheidrwydd ar yr ymgeisydd i dderbyn y cynnig.

Nid yw defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gwarantu y bydd trwydded yn cael ei chaniatáu.

### 5.1.3 Cost y gwasanaeth

Mae gan CNC hawl dewisol dan erthygl 10 y Gorchymyn Sefydlu i ddarparu cyngor, ac i godi tâl am y cyngor hwnnw. Wrth osod ffioedd a thaliadau, bydd yr egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ar waith, ac adennill costau yn llawn yw'r sail briodol ar gyfer codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio dewisol.

Rydym wedi ceisio cyfrifo cyfradd fesul awr gyfunol ar gyfer adennill costau a fyddai'n berthnasol i nifer o drefniadau trwyddedu gwahanol. Mae mabwysiadu cyfradd fesur awr gyfunol yn cynnig eglurder i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gostau disgwyliedig gofyn am gyngor ar draws y trefniadau gwahanol.

Mae CNC wedi asesu'r costau sy'n gysylltiedig gyda darparu'r gwasanaeth hwn. Yn seiliedig ar hyn, rydym am osod cyfradd fesul awr o £125/awr y person. Mae'r gyfradd hon yn seiliedig ar gostau staff, gorbenion a chostau eraill a dynnir gan CNC wrth gyflenwi'r gwasanaeth dewisol hwn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd CNC yn cynnig opsiwn i ymgeiswyr dalu am waith staff penodol o fewn CNC. Bydd yr opsiwn hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn achosion lle gallai cynnig gwasanaeth y codir tâl amdano effeithio ar wasanaeth cyffredinol CNC yn negyddol, er enghraifft, lle byddai darparu'r gwasanaeth ar gais yn achosi i CNC orfod tynnu staff oddi ar eu dyletswyddau arferol am gyfnod estynedig.

Mae CNC yn bwriadu paratoi nifer o gytundebau safonedig a fyddai'n amlinellu'r gwasanaeth y gallem ei ddarparu. Fodd bynnag, lle y credwn bod hynny'n fwy priodol, mae'n bosibl i ni ddechrau trafodaeth cais benodol gyda'r ymgeisydd er mwyn cytuno ar delerau ar gyfer darparu cyngor dewisol.

### 5.1.4 Gweithrediad

Bwriadwn ddechrau gweithredu'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2017; fodd bynnag, bydd y dyddiad ar gyfer cychwyn yn amrywio yn ôl y drefn reoleiddio. Byddwn ond yn cynnig y gwasanaeth gyda threfniadau yr ydym yn fodlon eu bod eisoes wedi cyhoeddi canllawiau technegol priodol. Er mwyn hwyluso'r broses, byddwn yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ar ein gwefan a fydd yn esbonio i ymgeiswyr pa wasanaeth y gallant ddisgwyl am ddim, a pha wasanaeth a ddarperir o fewn y ffi ymgeisio.

**Cwestiwn 8. Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cynghori cyn-ymgeisio ac a ydych yn credu eu bod yn fanteisiol i'r ymgeisydd, gan arwain at geisiadau o ansawdd gwell?**

**Cwestiwn 9. Beth yw eich barn ar gytundebau safonedig ar gyfer darparu'r gwasanaeth, ac a ydynt yn well na thrafodaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar geisiadau?**

**Cwestiwn 10. Pe byddai CNC yn cynnig cyfraddau consesiynol, dan ba amgylchiadau y dylai'r consesiynau gael eu defnyddio?**

# 6 Materion Eraill i’w Nodi

Mae newidiadau pellach yr ydym am dynnu sylw atynt mewn perthynas â’n taliadau. Ymgynghorwyd yn unigol ar y rhain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, neu maent yn ymwneud ag agweddau arbennig o’n taliadau a all fod o ddiddordeb penodol i dalwyr taliadau, ac felly yn galw am esboniad pellach.

## 6.1 Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Dewisol

Mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y system cynllunio datblygiad. Yn y rôl hon, rydym yn cynghori gwneuthurwyr penderfyniadau a datblygwyr ar effeithiau amgylcheddol tebygol polisïau cynllunio a chynigion datblygu ar adegau penodol yn y broses gynllunio.

Bydd datblygwyr yn aml yn awyddus i ni gyfranogi ar lefel sydd tu hwnt i’n dyletswyddau statudol, yn enwedig yn ystod y cam cyn-ymgeisio cynnar. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar ac effeithiol a’r manteision a ddaw o hyn i’n cwsmeriaid a’r amgylchedd. Fodd bynnag, mae’n dod yn gynyddol anodd i ni gydbwyso’r her o ddarparu adnoddau i’r gwasanaeth dewisol hwn gyda’n gwaith statudol.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni anghenion ein cwsmeriaid a darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru, bwriadwn gyflwyno taliadau am yr agweddau hynny o’n cyngor ‘cynllunio’ sy’n ddewisol, h.y. lle nad oes dyletswydd na gofyniad statudol ar CNC i ddarparu’r cyngor. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar ein bwriad i gyflwyno taliadau am ein cyngor a’r egwyddorion y byddai’r gwasanaeth hwn yn seiliedig arnynt. Ar y cyfan, mae’r adborth a dderbyniwyd fel rhan o’r ymgynghoriadau hyn wedi bod yn gefnogol. Rydym felly yn bwriadu dechrau cynnig y gwasanaeth hwn gyda thaliadau o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Wrth ddarparu’r gwasanaeth hwn, byddwn yn cyfyngu ein cyngor y telir amdano i wasanaethau sy’n unol gyda’n rôl fel ymgynghorydd yn y broses gynllunio. Er enghraifft, ni fyddwn yn rhan o waith paratoi adroddiadau i ddatblygwyr nac yn ymgymryd ag asesiadau. Mae ein gwefan yn nodi gwybodaeth ychwanegol ar y math o gyngor a fydd yn gynwysedig yn y gwasanaeth hwn.

Bydd y gwasanaeth cyngor cynllunio dewisol y codir tâl amdano yn cael ei gynnig mewn achosion fel a ganlyn:

- Nid oes dyletswydd statudol, na chyfrifoldeb ar CNC i ddarparu’r cyngor y gofynnir amdano gan yr ymgeisydd
- Mae’r datblygiad arfaethedig yn cyflawni o leiaf un o’r meini prawf ar restr wirio blaenoriaeth ymgysylltu CNC; mae’r rhestr wirio i’w gweld ar ein gwefan.

Mae CNC yn bwriadu cynnig y gwasanaeth dewisol y codir tâl amdano i bob math o ddatblygiad, ni waeth pa faint, cyn belled â’u bod yn cyflawni’r meini prawf a nodir uchod. Bydd hyn yn berthnasol i ddatblygiadau morol a daearol yn ogystal â datblygiadau gaiff eu trin gan ddeddfwriaeth nad yw’n ymwneud â chynllunio, fel y Ddeddf Harbwr neu adran 36 o’r Ddeddf Drydan.

Cynigir y gwasanaeth ar sail wirfoddol ac ni fydd unrhyw reidrwydd ar y datblygwr i wneud contract gyda CNC ar gyfer darpariaeth y cyngor hwn.

Fel rhan o'n gwasanaeth dewisol, byddwn yn cynnig i ddatblygwyr farn ragarweiniol ar eu cynnig yn rhad ac am ddim. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi barn ddangosol o broblemau posibl mewn cysylltiad â'r cynnig datblygu, materion all atal y datblygiad, a chyngor ar fesurau lliniaru posibl. Bydd CNC hefyd yn rhoi syniad o fesurau caniatáu y bydd ar y datblygwr efallai eu hangen.

Codir tâl am unrhyw gyngor dewisol y gofynnir amdano sy'n ychwanegol at hyn. Byddwn yn defnyddio cyfradd fesul awr i adennill costau llawn y gwasanaethau hyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn cynnig opsiwn i'r datblygwr lunio trefniant pwrpasol gyda CNC am wasanaeth estynedig.

Mae gwybodaeth bellach ar ein gwefan[7] am y gwasanaeth cynghori cynllunio dewisol y codir tâl amdano a'r gwasanaeth sydd am ddim y byddwn yn ei gyflwyno o Ebrill 2017 ymlaen.

### 6.2 Cysylltiadau â Chynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol

Mae'r Cynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gyfrifo taliadau ar gyfer rhai gweithgareddau a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym eisoes wedi amlinellu ein bwriad i gynnal adolygiad sylweddol o'n ffioedd a'n taliadau a'n dull o weithredu cynllun OPRA. Hyd nes y digwydd hynny, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Cynllun Gwerthuso Risg Gweithredol (OPRA) Trwyddedu Amgylcheddol i gyfrifo taliadau am y gweithgareddau hynny.

Hyd nes y byddwn wedi cwblhau ein hadolygiad ehangach, fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun OPRA Trwyddedu Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd. Caiff eu Cynllun OPRA ei ddiwygio o bryd i'w gilydd, er enghraifft drwy newidiadau technegol o fewn eu hymgynghoriadau codi tâl ac felly rydym yn annog talwyr taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw golwg ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd[8].

### 6.3 Taliadau ynni dŵr

Yn yr ymgynghoriad blaenorol ar ein ffioedd a'n taliadau, roeddem wedi cyhoeddi y byddem yn adolygu'r taliadau ynni dŵr a gyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu gohirio'r adolygiad hwn a chadw'r strwythur ffioedd cyfredol am un flwyddyn arall yn 2017-18 am nifer o resymau fel a ganlyn:

- Gostyngiad yn nifer y trwyddedau ynni dŵr;
- Ein hadolygiad parhaus o brosesau trwyddedu ynni dŵr a threfniadau eraill; ac

[7] https://naturalresources.wales/planning-and-development/discretionary-planning-advice-service

[8] https://www.gov.uk/government/collections/environment-agency-charging-schemes

- Angen am ganllawiau eglur ar gyfraddau codi tâl.

## 6.4 Taliadau Gweithgareddau Perygl Llifogydd

O 1 Ebrill 2017 byddwn yn cynnwys y tâl cydymffurfio ar wahân ar gyfer trwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd o fewn y tâl ymgeisio. Nid yw hyn yn newid y tâl; yn hytrach, mae'n symleiddio proses y ceisiadau am drwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd.

Taliadau Ymgeisio am Drwyddedau Gweithgareddau Perygl Llifogydd Cyfredol

| Band | Tâl | Lwfans cyn-ymgeisio a gynhwysir yn y tâl (uchafswm) |
|---|---|---|
| Isel | £230 | 1 awr |
| Canolig | £320 | 2 awr |
| Uchel | £500 | 3 awr |

Tâl cydymffurfio cyfredol

| Band | Tâl |
|---|---|
| Isel | £40 |
| Canolig | £40 |
| Uchel | £40 |
| Lluosog | £40 |

Diwygiedig o 1 Ebrill 2017 – Tâl Ymgeisio am Drwydded Gweithgareddau Perygl Llifogydd a Monitro Cydymffurfiaeth

| Band | Tâl | Lwfans cyn-ymgeisio a gynhwysir yn y tâl (uchafswm) |
|---|---|---|
| Isel | £270 | 1 awr |
| Canolig | £360 | 2 awr |
| Uchel | £540 | 3 awr |

## 6.5 Cyfarwyddeb Safleoedd Hylosgi Canolig

Cyhoeddwyd y Gyfarwyddeb Safleoedd Hylosgi Canolig yn Nhachwedd 2015 ac mae gan Aelod Wladwriaethau ddwy flynedd i drosglwyddo'r Gyfarwyddeb hon i ddeddfwriaeth ddomestig.  Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn ac efallai y bydd gan CNC rhyw fath o rôl (yn amodol ar ymgynghori) o ran rheoleiddio'r gyfarwyddeb hon. Felly mae'n bosibl y bydd angen cynnwys trefniadau codi tâl yn y dyfodol; fodd bynnag, ni ddaw union rôl CNC yn amlwg hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar drosglwyddiad y gyfarwyddeb hon (rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn hydref 2016).

# 7 Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn

Rydym yn gofyn am eich sylwadau a'ch barn ar y cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau ar gyfer 2017-18, yn ogystal â gofyn am sylwadau a syniadau cychwynnol ar sut y bydd ein strategaeth a'n cynlluniau taliadau'n edrych yn y dyfodol.

## 7.1 Sut i Ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion yw 13 Ionawr 2017.

Gallwch ymateb yn y ffyrdd canlynol:

**E-bost**
feesandchargesconsultation@naturalresourceswales.gov.uk

**Post**
Ymateb i Ymgynghoriad Taliadau
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

**Rhif ffôn**
0300 065 3000

**Ar-lein**
Ar gael ar ein gwefan: www.naturalresourceswales.gov.uk

## 7.2 Diogelu Data

### Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad. Hefyd mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei weld er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y cyhoeddwn ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad y sawl sy'n ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi rhowch wybod i ni wrth ddychwelyd eich ymateb a byddwn yn eu dileu o ddeunydd cyhoeddedig.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth

sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd rhywun yn gofyn i gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu am ydym ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad yna mae’n ffactor pwysig y byddem yn ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’i chyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

### 7.3 Camau Nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi’r holl sylwadau (ac eithrio gwybodaeth bersonol fel y manylir uchod) a’n hymatebion ar ein gwefan. Os byddwch yn cynnwys cyfeiriad e-bost yn eich ymateb byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd crynodeb o’r ymatebion wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

# Atodiad 1

## Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau

**Rhestr Aelodaeth**

Ffederasiwn y Busnesau Bach

Dwr Cymru/Welsh Water

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Cymdeithas Perchnogion Tir Gwledig

Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain

Micro Hydro Association

Undeb yr Amaethwyr

Energy UK

Undeb Amaethwyr Cymru

Cymdeithas Diwydiannau Petrocemegol y DU

Cymdeithas Diwydiannau Cemegol

CONFOR

Coedwigwyr Siartredig

Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain

Resource Association